Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cyfrifon Cynghorau:

## Eich Hawliau

# Gwybodaeth am yr hawliau i archwilio, cwestiynu a gwrthwynebu cyfrifon eich cyngor

Mae'r daflen hon yn egluro'r hawl i archwilio cyfrifon cyngor neu gorff llywodraeth leol arall[1]. Mae hefyd yn egluro'r hawl i ofyn cwestiynau i'r Archwilydd Cyffredinol am gyfrifon cyngor, a'r hawl i wrthwynebu eitemau yn y cyfrifon a materion archwilio eraill. Nodir yr hawliau hyn yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004[2], ac maent yn ychwanegol at yr hawliau i geisio gwybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a deddfwriaeth arall ynghylch yr hawl i gael gafael ar wybodaeth.

Nid esboniad cynhwysfawr o'r gyfraith yw'r daflen hon, na chyngor cyfreithiol ychwaith. Os oes angen cyngor arnoch ynghylch yr hawliau a amlinellir yma, dylech ystyried gofyn amdano gan gynghorydd cyfreithiol cymwysedig.

Yn y daflen hon, mae unrhyw gyfeiriad at 'archwilydd' yn cyfeirio at yr Archwilydd Cyffredinol neu aelod o staff Swyddfa Archwilio Cymru sy'n gweithio ar ran yr Archwilydd Cyffredinol.

I wybod sut i gysylltu â'r archwilydd, ffoniwch Swyddfa Archwilio Cymru ar 029 2032 0500 neu anfonwch e-bost i post@archwilio.cymru

1 Mae cyrff llywodraeth leol yn cynnwys cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol, comisiynwyr yr heddlu a throseddu, awdurdodau tân ac achub, a chynghorau cymuned. Gweler adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 am restr lawn o'r cyrff cysylltiedig. Mae'r daflen hon cyfeirio'n bennaf at gynghorau, i fod yn gryno. Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn diffinio cyrff perthnasol mwy a chyrff perthnasol llai ac mae ganddynt wahanol ddarpariaethau mewn cysylltiad â hawliau etholwyr. Mae cynghorau yn gyrff perthnasol mwy ac, oni nodir fel arall, mae'r hawliau a nodir yn y daflen hon yn berthnasol i gyrff perthnasol mwy.

2 Ceir rhai manylion eraill yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

## Swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol

Yr Archwilydd Cyffredinol sy'n archwilio'r rhan fwyaf o gyrff sector cyhoeddus Cymru. Cefnogir gwaith yr Archwilydd Cyffredinol gan staff Swyddfa Archwilio Cymru a chwmnïau cyfrifwyr preifat.

Mae archwiliadau, asesiadau ac arolygiadau'r Archwilydd Cyffredinol yn darparu:

- radroddiadau ar gyfrifon blynyddol y cynghorau;
- adroddiadau ynghylch a yw cynghorau a chyrff cyhoeddus eraill Cymru yn darparu gwerth da am arian;
- sylwadau i gynghorau er mwyn eu helpu i wella; a
- gwybodaeth i'r rheini sy'n gyfrifol am graffu ar bolisïau, ac yn atebol i lunwyr polisïau, defnyddwyr gwasanaethau a threthdalwyr.

## Materion gyda chynghorau

Er bod y daflen hon yn crynhoi'r hawl i archwilio cyfrifon, cwestiynu'r archwilydd a chyflwyno gwrthwynebiadau, dylid nodi bod sawl ffordd wahanol o drafod materion neu broblemau gyda chyngor, ac yn aml, bydd y rhain yn fwy addas nag arfer hawliau mewn cysylltiad â'r cyfrifon.

Os ydych o'r farn bod rhywbeth wedi mynd o'i le yn eich cyngor, y peth gorau i'w wneud fel arfer yw cysylltu â'r cyngor yn uniongyrchol. Mae gan y rhan fwyaf o gynghorau eu system gwynion eu hunain, a dylai'r manylion fod ar gael ar wefan y cyngor, yn ogystal ag yn llyfrgelloedd a swyddfeydd y cyngor. Gallech gysylltu ag un o'ch cynghorwyr lleol hefyd (mae gan sawl ward fwy nag un cynghorydd).

Weithiau, bydd angen i rywun arall fynd i'r afael â phroblemau. Os ydych o'r farn bod eich cyngor wedi gwneud rhywbeth o'i le ac nad ydych yn fodlon â'r ffordd y mae wedi ymdrin â'ch cwyn, neu os ydych o'r farn bod ymddygiad cynghorydd wedi disgyn yn is na'r safonau uchel y disgwylir i weision cyhoeddus eu cyrraedd, dylech gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Os ydych yn amau achos o dwyll neu ddefnydd amhriodol o arian y cyngor, dylech gysylltu ag archwilydd mewnol y cyngor neu'r heddlu.

## Crynodeb o'r hawliau

Mae'r wybodaeth ganlynol yn crynhoi'r hawl i archwilio cyfrifon cyngor, gofyn cwestiynau i'r archwilydd am gyfrifon cyngor, a chyflwyno gwrthwynebiadau yn ymwneud â'r cyfrifon. Nodir yr hawliau hyn yn adrannau 29 i 32 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, ac mae cyfreithiau perthnasol eraill i'w gweld yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

### Hawliau i archwilio a gwneud copïau o'r datganiad o gyfrifon ac adroddiadau'r archwilydd

Mae'n rhaid i gyngor gyhoeddi ei gyfrifon am y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth (sydd newydd fod) ac unrhyw adroddiad ar y datganiad o gyfrifon a wnaed gan yr archwilydd, erbyn 30 Medi.1 Os ydych chi'n etholwr llywodraeth leol, gallwch, ar unrhyw adeg resymol, fwrw golwg dros y dogfennau hyn, ac unrhyw adroddiad arall a gyflwynwyd i'r corff gan yr Archwilydd Cyffredinol, a gwneud copïau am ddim.

Gallwch ofyn hefyd am anfon y dogfennau atoch, er y gallai'r cyngor godi tâl am y copïau y bydd yn eu hanfon. Mae'n drosedd i unrhyw un atal yr hawliau archwilio hyn neu fethu â darparu unrhyw gopïau y gofynnir amdanynt.

### Archwilio dogfennau yn ystod archwiliad

Bydd yr archwilydd yn pennu dyddiad pan fydd hawliau etholwyr i ofyn cwestiynau mewn archwiliad neu gyflwyno gwrthwynebiad mewn archwiliad yn dod i rym. Mae gan unigolyn â buddiant 20 diwrnod gwaith cyn y dyddiad hwnnw i weld y cyfrifon sydd i'w harchwilio a'r dogfennau ategol[3].

O leiaf 14 diwrnod cyn dechrau'r cyfnod o 20 diwrnod gwaith, mae'n rhaid i gyngor roi hysbysiad bod cyfrifon ar gael i'w harchwilio, ynghyd â'r holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebau sy'n gysylltiedig â nhw. Yn ogystal â chael ei arddangos mewn o leiaf un man amlwg yn yr ardal leol, dylid cyhoeddi'r hysbysiad ar wefan y cyngor. Mae'n rhaid i bob hysbysiad roi enw a chyfeiriad archwilydd y cyngor, a'r dyddiadau, yr amseroedd a'r mannau lle gall pobl sydd â buddiant weld a chopïo'r dogfennau, neu, yn achos rhai cyrff llywodraeth leol llai, manylion am sut i drefnu arolygiad.

Mae'n syniad da trefnu apwyntiad gyda'r cyngor ar gyfer unrhyw archwiliad, ac i rai cyrff llywodraeth leol llai, mae angen rhoi 'rhybudd rhesymol' (h.y. gwneud apwyntiad ar amser realistig). Nid yw'r hawl i archwilio dogfennau o dan Ddeddf 2004 yn rhychwantu dogfennau nad ydynt yn berthnasol i'r cyfrifon. Nid yw'n berthnasol i wybodaeth bersonol sy'n ymwneud â swydd yr unigolyn, na'i gyflogaeth neu daliadau neu fuddion perthnasol eraill ychwaith.

3 Mae cyfraith achosion yn nodi bod unrhyw un sydd â buddiannau ariannol neu gyfreithiol mewn cyngor, megis etholwr neu drethdalwr, yn unigolyn â buddiant.

## Cwestiynau yn ystod archwiliad

Mae'n rhaid i hysbyseb neu hysbysiad y cyngor sy'n dweud bod y cyfrifon ar gael i'w harchwilio nodi hefyd pryd y gall etholwyr neu eu cynrychiolwyr ofyn cwestiynau i'r archwilydd am y cyfrifon dan sylw.

Mae'n rhaid i gwestiynau ymwneud â chyfrifon blwyddyn yr archwiliad; ni chânt fod am gyfrifon unrhyw flwyddyn arall. Bydd yr archwilydd yn penderfynu pa un ai ateb cwestiynau ai peidio, ac nid yw'r hawl i ofyn cwestiynau yn cynnwys rhai nad ydynt yn berthnasol i'r cyfrifon, megis cwestiynau cyffredinol am bolisïau'r cyngor. Wrth ateb cwestiwn, nid oes rhaid i'r archwilydd ddweud a yw'n credu bod y cyngor wedi gwneud rhywbeth anghyfreithlon, neu os yw eitem yn y cyfrifon yn anghyfreithlon.

Cyn gofyn unrhyw gwestiynau i'r archwilydd, dylech archwilio'r cyfrifon fel eich bod yn ymwybodol o'r hyn sydd ynddynt. Diben y cyfle i ofyn cwestiynau yw galluogi etholwyr a'u cynrychiolwyr fod yn eglur ynglŷn ag amheuon a chamddealltwriaeth mewn cysylltiad â'r cyfrifon.

Os byddwch yn gofyn cwestiynau nad ydynt yn ymwneud a'r cyfrifon, gall yr archwilydd awgrymu eich bod yn gofyn i'r cyngor am yr wybodaeth. Nid swyddogaeth yr archwilydd yw gweithredu fel cyfrwng i chi ofyn cwestiynau i'r cyngor a chael ymateb ganddo.

## Yr hawl i fynegi gwrthwynebiad yn ystod archwiliad

Os ydych yn un o etholwyr y cyngor, neu'n gynrychiolydd awdurdodedig etholwr, cewch gyflwyno gwrthwynebiadau gerbron yr archwilydd ar yr amod:

a. bod eitem o'r cyfrifon yn anghyfreithlon; a/neu
b. bod mater sy'n berthnasol i'r archwiliad y mae gan yr archwilydd rym i hysbysu'r cyhoedd amdano mewn 'adroddiad budd y cyhoedd'.

Mae eitem yn y cyfrifon yn anghyfreithlon os yw'n cofnodi, er enghraifft:

- sgwariant, buddsoddiad neu incwm nad oedd gan y cyngor unrhyw hawl i'w gweithredu, megis pan fo'r cyngor wedi gwario arian ar rywbeth nad oedd ganddo'r grym na'r ddyletswydd i'w wneud;
- gwariant heb ganiatâd dyledus;
- gwariant neu incwm yn sgil penderfyniad anghyfreithlon, megis achos pan fo cynghorwyr a wnaeth y penderfyniad yn debygol o elwa'n uniongyrchol arno;
- gwariant at ddiben cyfreithiol, ond ar lefel mor uchel nes ei fod yn anghyfreithlon oherwydd afresymoldeb; neu
- wariant neu incwm a dynnwyd o'r gronfa neu'r cyfrif anghywir, neu a ychwanegwyd atynt.

Os bydd archwilydd o'r farn bod eitem yn anghyfreithlon, caiff wneud cais i'r llys i gadarnhau bod yr eitem yn y cyfrifon yn anghyfreithlon. Os bydd y llys yn cytuno, caiff orchymyn bod y cyfrifon yn cael eu hunioni. Wrth benderfynu a ddylai wneud cais i'r llys, bydd yr archwilydd yn ystyried nifer o ffactorau, gan gynnwys y gost.

Ni ellir gwneud gwrthwynebiad dilys am unrhyw reswm arall ar wahân i'r rhai a nodir yn (a) a (b) uchod. Hefyd, mae'n rhaid cyflwyno gwrthwynebiad dilys ar y dyddiad neu ar ôl y dyddiad a bennir gan yr archwilydd fel y dyddiad pan fo'r hawl i ofyn cwestiynau yn ystod archwiliad a chyflwyno gwrthwynebiad yn ystod archwiliad yn dod i rym, ac mae'n rhaid iddynt ymwneud â chyfrifon y flwyddyn sy'n cael ei harchwilio. Os ydych yn ystyried pa un a ddylech wrthwynebu ai peidio, dylech gofio bod gan gynghorau y disgresiwn i benderfynu ar y ffordd orau o wneud pethau. Nid yw anghytuno'n gryf â rhywbeth y mae'r cyngor wedi ei wneud yn rheswm dilys dros wrthwynebu.

Os yw etholwr, neu ei gynrychiolydd, yn dymuno cyflwyno gwrthwynebiad, mae'n rhaid iddo ysgrifennu at yr archwilydd i'w hysbysu ynghylch y gwrthwynebiad arfaethedig. Mae'n rhaid i hysbysiad o'r fath ddweud wrth yr archwilydd beth yw sail y gwrthwynebiad. Dylai'r hysbysiad gynnwys, cyhyd ag y bo modd, fanylion unrhyw eitem yn y cyfrif yr honnir ei bod yn torri'r gyfraith, a/neu fanylion am unrhyw fater y gallai'r archwilydd lunio adroddiad amdano er budd y cyhoedd. Mae'n rhaid i'r etholwr neu ei gynrychiolydd anfon copi o'r hysbysiad i'r cyngor ar yr un pryd ag y mae'n anfon copi at yr archwilydd. Fel arfer, mae'n briodol anfon copi o'r hysbysiad at sylw'r Prif Weithredwr, neu'r Clerc yn achos cyngor cymuned.

Mae'n rhaid i'r archwilydd ddod i benderfyniad ynghylch unrhyw wrthwynebiad. Os yw'r archwilydd yn penderfynu peidio â cheisio datganiad gan y llysoedd ar ôl cael gwrthwynebiad sy'n datgan bod eitem yn y cyfrifon yn anghyfreithlon, ac y gwneir y gwrthwynebiad hwnnw yn unol â'r ddeddfwriaeth, caiff yr etholwr neu ei gynrychiolydd ofyn i'r archwilydd gyflwyno datganiad o resymau dros y penderfyniad hwnnw o fewn 14 diwrnod ar ôl iddo gael y penderfyniad hwnnw. Os nad yw'r etholwr neu ei gynrychiolydd yn fodlon ar y penderfyniad, gall apelio i'r llys o fewn 28 diwrnod i dderbyn y datganiad o resymau.

Os yw gwrthwynebiad yn ymwneud â mater sy'n berthnasol i'r archwiliad y mae gan yr archwilydd bŵer i ddweud wrth y cyhoedd amdano mewn adroddiad er budd y cyhoedd, mae'n rhaid i'r archwilydd, unwaith eto, benderfynu a fydd yn gweithredu ai peidio. Fel arfer, bydd yr archwilydd yn rhoi rhesymau am ei benderfyniad, er nad oes rhaid iddo wneud hynny, ac nid oes hawl i apelio i'r llysoedd yn erbyn penderfyniad o'r fath o dan Ddeddf 2004.

## Beth arall y gallwch ei wneud

Gallwch roi gwybodaeth i'r archwilydd sy'n berthnasol i'w gyfrifoldebau ar unrhyw adeg. Er enghraifft, gallwch ddweud wrtho os ydych chi o'r farn bod rhywbeth o'i le ar y cyfrifon neu broblem o ran gwastraff ac aneffeithlonrwydd yn y modd y mae'r cyngor yn cynnal ei wasanaethau. Nid oes rhaid i chi ddilyn unrhyw derfynau amser na gweithdrefnau penodol wrth rannu gwybodaeth o'r fath. Fel arfer, bydd yr archwilydd yn dweud wrthych beth yw canlyniad cyffredinol unrhyw waith a wnaed mewn ymateb i'r wybodaeth a ddarparwyd, a bydd yn ceisio rhoi ateb defnyddiol ichi, ond nid oes dyletswydd statudol arno i wneud hyn mewn cysylltiad â gohebiaeth o'r fath nac i adrodd i ohebwyr. I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch y daflen Ysgrifennu at Archwilydd Cyffredinol Cymru neu Swyddfa Archwilio Cymru: Canllaw i ohebwyr ar ein gwefan.

## Costau

Mae'n rhaid i gynghorau, ac felly trethdalwyr lleol, dalu costau ymdrin â chwestiynau a gwrthwynebiadau. Bydd archwilwyr yn ystyried gwrthwynebiadau dilys ac yn ystyried ffactorau amrywiol wrth benderfynu sut i ymdrin â nhw. Mae'n rhaid iddynt ystyried y costau dan sylw. Ni fyddant yn parhau i ymdrin â gwrthwynebiad oni bai bod hynny'n rhesymol yn eu barn nhw. Os byddwch yn apelio i'r llysoedd, efallai mai chi eich hun fydd yn gorfod talu am hynny.

## Addasiadau rhesymol mewn cysylltiad â nam (anabledd)

Rydym yn annog pobl â nam (anabledd) y mae angen addasiadau rhesymol arnynt i roi gwybod inni beth yw'r addasiadau hynny. Gall addasiad rhesymol olygu, er enghraifft, darparu gwybodaeth mewn ffont bras neu ar ffurf sain er mwyn mynd i'r afael â nam ar y golwg. Byddwn yn darparu rhagor o wybodaeth ar gais.

# Manylion cyswllt defnyddiol

Archwilydd Cyffredinol Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500
E-bost: post@archwilio.cymru
Ffacs: 029 2032 0600

www.archwilio.cymru

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203
E-bost: ask@ombudsman-wales.org.uk
Ffacs: 01656 641199

www.ombwdsmon.cymru

The Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545745
Ffacs: 01625 524510

www.ico.org.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. Croesawn ohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Hefyd, gallwch ysgrifennu atom yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.